

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Papur ymchwil

**Yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14**  
**(Chwefror 2014)**

Mawrth 2014

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gfael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

E-bost: [Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)  
Twitter: [@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)  
Blog: [pigion.wordpress.com](http://pigion.wordpress.com)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 14/0428  
Rhif dogfen:14/011

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Papur ymchwil

### Yr Ail Gyllideb Atodol 2013-14 (Chwefror 2014)

Mawrth 2014

Gareth Thomas

Cafodd ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11 Chwefror 2014. Mae'n nodi nifer o drosglwyddiadau rhwng portffolios ac oddi mewn iddynt, addasiadau i'r llinell sylfaen, gan gynnwys trosglwyddiadau o Lywodraeth y DU a newidiadau rhwng arian refeniw a chyfalaf, a dyraniadau o gronfeydd wrth gefn.

Diben y papur hwn yw cyfrannu at y gwaith o graffu ar y gyllideb atodol. Mae'n rhoi trosolwg o'r newidiadau arfaethedig ac yn eu cymharu â Chyllideb Atodol flaenorol 2013-14, fel y cytunwyd arni gan y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2013, a Chyllideb Derfynol 2013-14. Felly, mae'n adeiladu ar y wybodaeth a ddarparwyd yn y dogfennau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Y Gwasanaeth  
Ymchwil



## Crynodeb

Mae'r ail gyllideb atodol hon ar gyfer 2013-14 yn diwygio cyllideb atodol flaenorol 2013-14, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2013.

**Y prif newid a gaiff ei adlewyrchu yn y gyllideb atodol hon yw ail-flaenoriaethu adnoddau i reoli pwysau yn ystod y flwyddyn. Mae lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael £192.6 miliwn yn ychwanegol o refeniw o gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae nifer o ddibenion eraill:**

- **gwneud dyraniadau o gronfeydd wrth gefn canolog;**
- **adlewyrchu trosglwyddiadau o fewn cyllidebau adrannol Llywodraeth Cymru, a rhwng y cyllidebau hynny; ac**
- **addasu'r llinellau sylfaen i roi cyfrif am drosglwyddiadau o Lywodraeth y DU, trosglwyddiadau rhwng arian refeniw a chyfalaf a dwyn cyllid ymlaen.**

Mae'r gyllideb atodol hefyd yn gwneud addasiad i gynyddu cwmpas incwm Lywodraeth Cymru £348.7 miliwn i gyflenwi ar gyfer cyllid a dderbyniwyd gan yr UE i mewn i'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) adnoddau naturiol a bwyd o ran y Cynllun Datblygu Gwledig a'r cynlluniau cefnogi'r farchnad.

Mae cynnig y gyllideb atodol yn gofyn i'r Cynulliad awdurdodi bod £382.3 miliwm ychwanegol yn cael ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru gan Weinidogion Cymru yn y flwyddyn ariannol 2013-14.

Ers y gyllideb atodol flaenorol ar gyfer 2013-14:

- Mae cyfanswm y gwariant a reolir (TME) ym mloc Cymru wedi cynyddu £528.4 miliwn, neu 3.3%.
- Caiff £643.3 miliwn ychwanegol, neu 4.1% o'r TME, ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Caiff £558.2 miliwn ychwanegol, neu 3.7% o'r DEL, ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Caiff £454.9 miliwn ychwanegol, neu 3.3% o'r DEL refeniw, ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Caiff £103.3 miliwn ychwanegol, neu 8.4% o'r DEL cyfalaf, ei ddyrannu i adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME) ym mloc Cymru wedi cynyddu £85.8 miliwn, neu 27.0%.



# Cynnwys

<b>1. Ail Gyllideb Atodol 2013-14 .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Y prif ffigurau.....</b>	<b>2</b>
2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME) .....	2
2.2. Terfyn Gwariant Adrannol (DEL).....	4
2.2.1. DEL Refeniw .....	7
2.2.2. DEL Cyfalaf.....	10
2.3. Gwariant a reolir yn flynyddol (AME) .....	13
<b>3. Addasiadau i'r llinell sylfaen .....</b>	<b>15</b>
<b>4. Newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn.....</b>	<b>16</b>
4.1. Dyraniadau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru .....	18
<b>5. Trosglwyddiadau rhwng adrannau.....</b>	<b>19</b>
<b>6. Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (IGC) .....</b>	<b>21</b>
<b>7. Llywodraeth leol (LIL).....</b>	<b>25</b>
<b>8. Cymunedau a threchu tlodi (CTT).....</b>	<b>28</b>
<b>9. Yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth (EGT) .....</b>	<b>30</b>
<b>10. Addysg a sgiliau (AS) .....</b>	<b>34</b>
<b>11. Cyfoeth Naturiol a Bwyd (CNB).....</b>	<b>37</b>
<b>12. Tai ac Adfywio (TA).....</b>	<b>40</b>
<b>13. Diwylliant a Chwaraeon (DaCh) .....</b>	<b>43</b>
<b>14. Gwasanaethau canolog a gweinyddu (GCG) .....</b>	<b>46</b>





## 1. Ail Gyllideb Atodol 2013-14

Gosododd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt AC) gynnig yr ail gyllideb atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14 ar 11 Chwefror 2014.<sup>1</sup> Yn ogystal, cyflwynwyd dogfen naratif<sup>2</sup> a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEG).<sup>34</sup> Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio cyllideb atodol flaenorol 2013-14, fel y'i cymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 16 Gorffennaf 2013.<sup>5</sup>

Yn ei datganiad i gyd-fynd â'r gyllideb atodol, dywedodd y Gweinidog:

Prif ddiben y Gyllideb Atodol hon yw dangos y newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2013-14 a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin. Mae'n nodi hefyd nifer o ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn, trosglwyddiadau rhwng Adrannau Llywodraeth Cymru a throsglwyddiadau ag Adrannau Llywodraeth y DU. Mae hefyd yn cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol.<sup>6</sup>

Mae'r ffigurau yn y papur hwn yn gysylltiedig â newidiadau o fewn y flwyddyn ariannol bresennol yn unig, ac felly fe'u dangosir **ar ffurf arian parod**; ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.

**Mae cynnig y gyllideb atodol yn gofyn i'r Cynulliad awdurdodi bod £382.3 miliwm ychwanegol yn cael ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru gan Weinidogion Cymru yn y flwyddyn ariannol 2013-14.<sup>7</sup>**

Ceir rhagor o wybodaeth am broses y gyllideb atodol yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: [Y Gyllideb Atodol](#). Efallai y bydd [Geirfa'r Gyllideb](#) yn ddefnyddiol hefyd.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14](#), Chwefror 2014. [fel ar 21 Chwefror 2014]

<sup>2</sup> Cafodd hon ei diweddarau ar 17 Chwefror 2014 ar ôl i Lywodraeth Cymru ddod o hyd i ddau gamgymeriad yn y ddogfen wreiddiol ac mae i'w gweld yma: Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2013-14: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2014 [fel ar 21 Chwefror 2014]

<sup>3</sup> **Prif grŵp gwariant (MEG)** - rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn sawl lefel o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant yw'r lefel uchaf o fanylder ac, yn gyffredinol, maent yn cyfateb i bortffolios neu gyfrifoldebau'r Gweinidogion. Islaw lefel y MEG, nodir y gwariant yn ôl y meysydd rhaglenni gwariant (SPAs) ac, o fewn y rhain, ar ffurf gweithrediadau.

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, [Tablau dyrannu Cyllideb Atodol 2013-14](#), Chwefror 2014 [fel ar 21 Chwefror 2014]

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2013-14](#), Mehefin 2013. Mae adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb atodol hon ar gael yma: [Craffu ar Gyllideb Atodol 2013-14](#), ac mae'r cynnig a gymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar gael yma: [Cofnod y Trafodion 16 Gorffennaf 2013](#) [fel ar 21 Ionawr 2014]

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Cyllideb Atodol 2013-14](#), Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 11 Chwefror 2014 [fel ar 21 Chwefror 2014]

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Atodol 2013-14](#), Chwefror 2014. [fel ar 21 Chwefror 2014]

## 2. Y prif ffigurau

Mae'r rhan hon yn rhoi manylion am y prif newidiadau a wnaed yn y gyllideb atodol hon. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau o fewn pob MEG ar lefel meysydd y rhaglenni gwariant (SPA)<sup>8</sup> mewn adrannau diweddarach o'r papur hwn.

### 2.1. Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)

Mae [tabl 1](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i gyfanswm y gwariant a reolir (TME)<sup>9</sup>, ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2013-14.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, mae'r TME ym mloc Cymru wedi cynyddu £528.4 miliwn, neu 3.3%. Y rhesymau dros hyn yw:

- addasiadau i'r llinell sylfaen o £442.6 miliwn yn y terfyn gwariant adrannol (DEL)<sup>10</sup> (gweler [adran 2.2](#) i gael rhagor a fanylion); a
- dyraniadau gwariant a reolir yn flynyddol (AME) ychwanegol<sup>11</sup> o £85.8 miliwn.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £643.3 miliwn ychwanegol (4.1%) o'r TME i adrannau Llywodraeth Cymru. Y rhesymau dros hyn yw:

- dyraniadau DEL ychwanegol o £558.2 miliwn (gweler [adran 2.2](#) i gael rhagor o fanylion); a
- dyraniadau AME ychwanegol o £85.1 miliwn.

O gymharu â chyllideb atodol cyntaf 2013-14, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf mewn dyraniadau TME i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd mwyaf mewn arian parod ac o ran caran i'w weld yn y MEG addysg a sgiliau: £374.7 miliwn, neu 18.4%.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn arian parod ac o ran caran i'w weld yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: £15.5 miliwn, neu 4.5%.

---

<sup>8</sup> **Maes rhaglenni gwariant (SPA)** – rhennir cyllideb Llywodraeth Cymru yn nifer o lefelau o fanylder at ddibenion monitro a rheoli. Y meysydd rhaglenni gwariant yw'r ail lefel o fanylder o dan y prif grwpiau gwariant ac maent yn diffinio'r grwpiau dyrannu penodol yn ôl y math o wasanaethau sydd i'w darparu.

<sup>9</sup> **Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)** – cyfanswm y ddwy elfen o'r gyllideb, sef y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a'r terfynau gwariant adrannol (DEL).

<sup>10</sup> **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** – fe'i gosodir fel arfer dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses Llywodraeth y DU o adolygu gwariant. Dyma derfyn cyllideb aml-flyydd Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r DEL heb ei neilltuo (y gyllideb a ddyrennir), ac mae'n rhoi disgrisiwn llwyr i Lywodraeth Cymru dros ei blaenoriaethau gwario. Caiff newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer DEL eu pennu ar sail fformiwla Barnett.

<sup>11</sup> **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** – mae'r AME yn llai rhagweladwy na'r gwariant mewn terfynau gwariant adrannol (DEL). Mae'n cynnwys gwariant a bennir yn ôl y galw yn gyffredinol, ac felly ni all y ddarpariaeth yn rhesymol fod yn destun terfynau dros nifer o flynyddoedd (er enghraifft, benthyciadau i fyfyrwyr). Caiff yr AME ei adolygu a'i bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y mae modd dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru ddim disgrisiwn dros benderfynu sut y caiff ei ddyrannu. Mae modd cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl yr angen, ond rhaid dychwelyd unrhyw arian nas gwariwyd.

Tabl 1: Newidiadau i Gyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb		Newid o'r Gyllideb		Cyllideb Atodol		Newid o'r Gyllideb		Newid o'r Gyllideb Atodol	
	Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan)	Atodol ar gyfer 2013-14 (Mehefin 2013)	Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan) i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013)	y cant	ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	Derfynol i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	y cant	(Mehefin 2013) i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	y cant	
	£000	£000	£000		£000	£000		£000		
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	6,300,192	6,319,093	18,901	0.3	6,541,454	241,262	3.8	222,361	3.5	
Llywodraeth leol	4,460,251	4,759,684	299,433	6.7	4,746,591	286,340	6.4	-13,093	-0.3	
Cymunedau a threchu tlodi	199,313	212,006	12,693	6.4	203,091	3,778	1.9	-8,915	-4.2	
Yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth	899,810	900,527	717	0.1	950,767	50,957	5.7	50,240	5.6	
Addysg a sgiliau	2,046,302	2,037,661	-8,641	-0.4	2,412,358	366,056	17.9	374,697	18.4	
Cyfoeth naturiol a bwyd	398,198	413,902	15,704	3.9	410,592	12,394	3.1	-3,310	-0.8	
Tai ac adfywio	370,058	394,930	24,872	6.7	431,318	61,260	16.6	36,388	9.2	
Diwylliant a chwaraeon	140,949	142,462	1,513	1.1	142,842	1,893	1.3	380	0.3	
Gwasanaethau canolog a gweinyddu	347,420	344,223	-3,197	-0.9	328,735	-18,685	-5.4	-15,488	-4.5	
<b>Cyfanswm dyraniadau TME</b>										
<b>Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,162,493</b>	<b>15,524,488</b>	<b>361,995</b>	<b>2.4</b>	<b>16,167,748</b>	<b>1,005,255</b>	<b>6.6</b>	<b>643,260</b>	<b>4.1</b>	
Refeniw wrth gefn	209,407	144,491	-64,916	-31.0	101,859	-107,548	-51.4	-42,632	-29.5	
Cyfalaf wrth gefn	869	80,160	79,291	9,124.4	7,749	6,880	791.7	-72,411	-90.3	
Comisiwn y Cynulliad	49,950	49,950	0	0.0	49,950	0	0.0	0	0.0	
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,244	5,244	0	0.0	5,431	187	3.6	187	3.6	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,942	3,942	0	0.0	3,942	0	0.0	0	0.0	
Taliadau uniongyrchol	645	645	0	0.0	645	0	0.0	0	0.0	
<b>Cyfanswm TME Cymru</b>	<b>15,432,550</b>	<b>15,808,920</b>	<b>376,370</b>	<b>2.4</b>	<b>16,337,324</b>	<b>904,774</b>	<b>5.9</b>	<b>528,404</b>	<b>3.3</b>	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

## 2.2. Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

Mae **tabl 2** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau yn y DEL ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2013-14.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, mae cyfanswm y DEL ym mloc Cymru wedi cynyddu £442.6 miliwn, neu 2.9%.<sup>12</sup> Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i addasiadau i'r llinell sylfaen:

- £358.6 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU; a
- £84.2 miliwn a ddygwyd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £558.2 miliwn (3.7%) ychwanegol o DEL i adrannau Llywodraeth Cymru.<sup>13</sup> Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn.

O gymharu â chyllideb atodol gyntaf 2013-14, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf yng nghyfanswm y DEL a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd mwyaf mewn arian parod ac o ran caran i'w weld yn y MEG addysg a sgiliau: £309.7 miliwn, neu 16.6%.
- Mae'r gostyngiad mwyaf, ar ffurf arian parod ac o ran caran, i'w weld yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: £15.4 miliwn, neu 4.5%.

Mae **ffigur 1** yn dangos y newid canrannol yng nghyfanswm y DEL a ddyrennir i bob MEG, o'i gymharu â'r newid cyffredinol yn y gyllideb atodol hon, a'r newidiadau yn y gyllideb atodol flaenorol a chyllideb derfynol 2013-14.

Mae **ffigur 2** yn dangos canran y DEL ychwanegol o £558.2 miliwn a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

---

<sup>12</sup> Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at ei gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.


<sup>13</sup> Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at ei gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

Tabl 2: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan)	Cyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Mehefin 2013)	Newid o'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan) i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013)		Cyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013) i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	
	£000	£000	£000	y cant	£000	£000	y cant	£000	y cant
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	6,205,618	6,182,203	-23,415	-0.4	6,382,118	176,500	2.8	199,915	3.2
Llywodraeth leol	4,435,763	4,737,828	302,065	6.8	4,728,084	292,321	6.6	-9,744	-0.2
Cymunedau a threchu tloidi	199,313	212,006	12,693	6.4	203,091	3,778	1.9	-8,915	-4.2
Yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth	851,892	852,609	717	0.1	903,405	51,513	6.0	50,796	6.0
Addysg a sgiliau	1,869,433	1,860,792	-8,641	-0.5	2,170,491	301,058	16.1	309,699	16.6
Cyfoeth naturiol a bwyd	398,198	413,902	15,704	3.9	406,992	8,794	2.2	-6,910	-1.7
Tai ac adfywio	441,058	465,930	24,872	5.6	504,318	63,260	14.3	38,388	8.2
Diwylliant a chwaraeon	138,209	139,722	1,513	1.1	140,102	1,893	1.4	380	0.3
Gwasanaethau canolog a gweinyddu	345,786	342,672	-3,114	-0.9	327,262	-18,524	-5.4	-15,410	-4.5
<b>Cyfanswm dyraniadau DEL</b>									
<b>Llywodraeth Cymru</b>	<b>14,885,270</b>	<b>15,207,664</b>	<b>322,394</b>	<b>2.2</b>	<b>15,765,863</b>	<b>880,593</b>	<b>5.9</b>	<b>558,199</b>	<b>3.7</b>
Refeniw wrth gefn	209,407	144,491	-64,916	-31.0	101,859	-107,548	-51.4	-42,632	-29.5
Cyfalaf wrth gefn	869	80,160	79,291	9,124.4	7,749	6,880	791.7	-72,411	-90.3
Comisiwn y Cynulliad	49,450	49,450	0	0.0	48,750	-700	-1.4	-700	-1.4
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,244	5,244	0	0.0	5,431	187	3.6	187	3.6
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,144	4,144	0	0.0	4,144	0	0.0	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	645	645	0	0.0	645	0	0.0	0	0.0
<b>Cyfanswm DEL Cymru</b>	<b>15,155,029</b>	<b>15,491,798</b>	<b>336,769</b>	<b>2.2</b>	<b>15,934,441</b>	<b>779,412</b>	<b>5.1</b>	<b>442,643</b>	<b>2.9</b>


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 1: Newidiadau canrannol yng nghyfanswm y DEL ar gyfer pob MEG**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 2: Canran y DEL ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

### 2.2.1. DEL Refeniw

Mae **tabl 3** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau yn y DEL refeniw ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2013-14.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, mae cyfanswm y DEL ym mloc Cymru wedi cynyddu £411.7 miliwn, neu 2.9%.<sup>14</sup> Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i addasiadau i'r llinell sylfaen, sef:

- £328.7 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU;
- £83 miliwn a ddygwyd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau;

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £454.9 miliwn<sup>15</sup> (3.3%) ychwanegol o DEL refeniw i adrannau Llywodraeth Cymru. Y rhesymau dros hyn yw:

- dyraniadau o £463.8 miliwn o gronfeydd wrth gefn;
- gostyngiad o £8.9 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau o fewn y prif grwpiau gwariant.

O gymharu â chyllideb atodol cyntaf 2013-14, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf yn y DEL refeniw a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd mwyaf mewn arian parod a chanran i'w weld yn y MEG addysg a sgiliau: £309.7 miliwn, neu 18.7%.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn arian parod a chanran i'w weld yn y MEG cyfoeth naturiol a bwyd: £22.6 miliwn, neu 6.9%.

Mae **ffigur 3** yn dangos y newid canrannol yn y DEL refeniw a ddyrennir i bob MEG, o'i gymharu â'r newid cyffredinol yn y gyllideb atodol hon, a'r newidiadau yn y gyllideb atodol flaenorol a chyllideb derfynol 2013-14.


Mae **ffigur 4** yn dangos canran y DEL refeniw ychwanegol o £454.9 miliwn a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

---

<sup>14</sup> Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at ei gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.


<sup>15</sup> Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at ei gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

**Ffigur 3: Newidiadau canrannol yn y DEL referniw ar gyfer pob MEG**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 4: Canran y DEL referniw ychwanegol a ddyrenir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.



Tabl 3: Newidiadau yn y DEL referniw

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan)		Newid o'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan) i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013)		Cyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)		Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013) i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	
	£000	£000	£000	y cant	£000	£000	y cant	£000	y cant	
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	5,974,068	5,940,553	-33,515	-0.6	6,141,297	167,229	2.8	200,744	3.4	
Llywodraeth leol	4,412,843	4,714,908	302,065	6.8	4,705,164	292,321	6.6	-9,744	-0.2	
Cymunedau a threchu tlodi	174,863	187,556	12,693	7.3	175,891	1,028	0.6	-11,665	-6.2	
Yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth	536,596	535,288	-1,308	-0.2	542,779	6,183	1.2	7,491	1.4	
Addysg a sgiliau	1,692,299	1,658,658	-33,641	-2.0	1,968,357	276,058	16.3	309,699	18.7	
Cyfoeth naturiol a bwyd	324,314	327,278	2,964	0.9	304,676	-19,638	-6.1	-22,602	-6.9	
Tai ac adfywio	175,888	175,905	17	0.0	172,593	-3,295	-1.9	-3,312	-1.9	
Diwylliant a chwaraeon	125,465	125,498	33	0.0	125,018	-447	-0.4	-480	-0.4	
Gwasanaethau canolog a gweinyddu	321,973	318,859	-3,114	-1.0	303,620	-18,353	-5.7	-15,239	-4.8	
<b>Cyfanswm dyraniadau DEL referniw Llywodraeth Cymru</b>	<b>13,738,309</b>	<b>13,984,503</b>	<b>246,194</b>	<b>1.8</b>	<b>14,439,395</b>	<b>701,086</b>	<b>5.1</b>	<b>454,892</b>	<b>3.3</b>	
Refeniw wrth gefn	209,407	144,491	-64,916	-31.0	101,859	-107,548	-51.4	-42,632	-29.5	
Cyfalaf wrth gefn	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
Comisiwn y Cynulliad	48,700	48,700	0	0.0	48,000	-700	-1.4	-700	-1.4	
Archwilydd Cyffredinol Cymru	5,224	5,224	0	0.0	5,411	187	3.6	187	3.6	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,131	4,131	0	0.0	4,131	0	0.0	0	0.0	
Taliadau uniongyrchol	645	645	0	0.0	645	0	0.0	0	0.0	
<b>Cyfanswm DEL referniw Llywodraeth Cymru</b>	<b>14,006,416</b>	<b>14,187,694</b>	<b>181,278</b>	<b>1.3</b>	<b>14,599,441</b>	<b>593,025</b>	<b>4.2</b>	<b>411,747</b>	<b>2.9</b>	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

### 2.2.2. DEL Cyfalaf

Mae **tabl 4** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau yn y DEL cyfalaf ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2013-14.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, mae'r DEL cyfalaf ym mloc Cymru wedi cynyddu £30.9 miliwn<sup>16</sup> neu 2.4%. Mae hyn i'w briodoli'n llwyr i addasiadau i'r llinell sylfaen, sef:

- £29.8 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU;
- £1.2 miliwn a ddygwyd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £103.3 miliwn ychwanegol (8.4%) o DEL cyfalaf i adrannau Llywodraeth Cymru. Y rhesymau dros hyn yw:

- dyraniadau o £94.5 miliwn o gronfeydd wrth gefn;
- cynnydd o £8.9 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau o refeniw i gyfalaf o fewn y prif grwpiau gwariant.

O gymharu â chyllideb atodol cyntaf 2013-14, y canlynol yw'r newidiadau mwyaf yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru:

- Mae'r cynnydd arian parod mwyaf i'w weld yn y MEG economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth: £43.3 miliwn, neu 13.6%.
- Mae'r cynnydd mwyaf mewn canran i'w weld yn y MEG cyfoeth naturiol a bwyd: £15.7 miliwn, neu 18.1%.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn arian parod i'w weld yn y MEG iechyd a gwasanaethau cymdeithasol: £0.8 miliwn, neu 0.3%.
- Mae'r gostyngiad mwyaf mewn canran i'w weld yn y MEG gwasanaethau canolog a gweinyddu: £0.2 miliwn, neu 0.7%.


Mae **ffigur 5** yn dangos y newid canrannol yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i bob MEG, o'i gymharu â'r newid cyffredinol yn y gyllideb atodol hon, a'r newidiadau yn y gyllideb atodol flaenorol a chyllideb derfynol 2013-14.

Mae **ffigur 6** yn dangos canran y DEL cyfalaf ychwanegol o £103.3 miliwn a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

---


<sup>16</sup> Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at ei gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

**Ffigur 5: Newidiadau canrannol yn y DEL cyfalaf ar gyfer pob MEG**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 6: Canran y DEL cyfalaf ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

Tabl 4: Newidiadau yn y DEL cyfalaf

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan)		Newid o'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan) i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013)		Cyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)		Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013) i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	
	£000	£000	£000	y cant	£000	£000	y cant	£000	y cant	
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	231,550	241,650	10,100	4.4	240,821	9,271	4.0	-829	-0.3	
Llywodraeth leol	22,920	22,920	0	0.0	22,920	0	0.0	0	0.0	
Cymunedau a threchu tloidi	24,450	24,450	0	0.0	27,200	2,750	11.2	2,750	11.2	
Yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth	315,296	317,321	2,025	0.6	360,626	45,330	14.4	43,305	13.6	
Addysg a sgiliau	177,134	202,134	25,000	14.1	202,134	25,000	14.1	0	0.0	
Cyfoeth naturiol a bwyd	73,884	86,624	12,740	17.2	102,316	28,432	38.5	15,692	18.1	
Tai ac adfywio	265,170	290,025	24,855	9.4	331,725	66,555	25.1	41,700	14.4	
Diwylliant a chwaraeon	12,744	14,224	1,480	11.6	15,084	2,340	18.4	860	6.0	
Gwasanaethau canolog a gweinyddu	23,813	23,813	0	0.0	23,642	-171	-0.7	-171	-0.7	
<b>Cyfanswm dyraniadau DEL cyfalaf</b>										
<b>Llywodraeth Cymru</b>	<b>1,146,961</b>	<b>1,223,161</b>	<b>76,200</b>	<b>6.6</b>	<b>1,326,468</b>	<b>179,507</b>	<b>15.7</b>	<b>103,307</b>	<b>8.4</b>	
Refeniw wrth gefn	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
Cyfalaf wrth gefn	869	80,160	79,291	9,124.4	7,749	6,880	791.7	-72,411	-90.3	
Comisiwn y Cynulliad	750	750	0	0.0	750	0	0.0	0	0.0	
Archwilydd Cyffredinol Cymru	20	20	0	0.0	20	0	0.0	0	0.0	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	13	13	0	0.0	13	0	0.0	0	0.0	
Taliadau uniongyrchol	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
<b>Cyfanswm DEL Cyfalaf Cymru</b>	<b>1,148,613</b>	<b>1,304,104</b>	<b>155,491</b>	<b>13.5</b>	<b>1,335,000</b>	<b>186,387</b>	<b>16.2</b>	<b>30,896</b>	<b>2.4</b>	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

### 2.3. *Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)*

Mae [tabl 5](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME), ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, ac hefyd ers cyllideb derfynol 2013-14.

Ers cyllideb atodol gyntaf 2013-14, mae AME ym mloc Cymru wedi cynyddu £85.8 miliwn, neu 27.0%. Y rhesymau dros hyn yw:

- ddyraniadau AME ychwanegol o £85.1 miliwn i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru;
- dyraniadau AME ychwanegol i Gomisiwn y Cynulliad o £0.7 miliwn.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb atodol hon yn dyrannu £85.1 miliwn (26.8%) o AME ychwanegol i adrannau Llywodraeth Cymru.

Tabl 5: Newidiadau i'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME)

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan)		Newid o'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2013-14 (wedi'i hail-ddatgan) i'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013)		Cyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)		Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)		Newid o'r Gyllideb Atodol (Mehefin 2013) i'r Gyllideb Atodol ar gyfer 2013-14 (Chwefror 2014)	
	£000	£000	£000	y cant	£000	£000	y cant	£000	y cant	
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	94,574	136,890	42,316	44.7	159,336	64,762	68.5	22,446	16.4	
Llywodraeth leol	24,488	21,856	-2,632	-10.7	18,507	-5,981	-24.4	-3,349	-15.3	
Cymunedau a threchu tlodi	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
Yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth	47,918	47,918	0	0.0	47,362	-556	-1.2	-556	-1.2	
Addysg a sgiliau	176,869	176,869	0	0.0	241,867	64,998	36.7	64,998	36.7	
Cyfoeth naturiol a bwyd	0	0	0	0.0	3,600	3,600	..	3,600	..	
Tai ac adfywio	-71,000	-71,000	0	0.0	-73,000	-2,000	2.8	-2,000	2.8	
Diwylliant a chwaraeon	2,740	2,740	0	0.0	2,740	0	0.0	0	0.0	
Gwasanaethau canolog a gweinyddu	1,634	1,551	-83	-5.1	1,473	-161	-9.9	-78	-5.0	
<b>Cyfanswm dyraniadau AME Llywodraeth Cymru</b>	<b>277,223</b>	<b>316,824</b>	<b>39,601</b>	<b>14.3</b>	<b>401,885</b>	<b>124,662</b>	<b>45.0</b>	<b>85,061</b>	<b>26.8</b>	
Refeniw wrth gefn	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
Cyfalaf wrth gefn	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
Comisiwn y Cynulliad	500	500	0	0.0	1,200	700	140.0	700	140.0	
Archwilydd Cyffredinol Cymru	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-202	-202	0	0.0	-202	0	0.0	0	0.0	
Taliadau uniongyrchol	0	0	0	0.0	0	0	0.0	0	0.0	
<b>Cyfanswm AME Cymru</b>	<b>277,521</b>	<b>317,122</b>	<b>39,601</b>	<b>14.3</b>	<b>402,883</b>	<b>125,362</b>	<b>45.2</b>	<b>85,761</b>	<b>27.0</b>	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil o [gyllidebau](#) Llywodraeth Cymru.

### 3. Addasiadau i'r llinell sylfaen

Fel y nodwyd yn [adran 2](#), bu cynnydd o £442.6 miliwn yng nghyfanswm y DEL ym mloc Cymru;<sup>17</sup> sef cynnydd o £411.7 miliwn yn y DEL cyfalaf, wedi'i wrthbwyso gan ostyngiad o £30.9 miliwn yn y DEL refeniw. Gellir priodoli'r newidiadau hyn i addasiadau i'r llinell sylfaen:

- £358.6 miliwn a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU; a
- £84.2 miliwn a ddygwyd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau.<sup>18</sup>

Nodir yr addasiadau hyn yn [nhabl 6](#), sydd hefyd yn dangos y newidiadau yn ôl refeniw cyllidol<sup>19</sup> a refeniw anghyllidol.<sup>20</sup>

Ynghyd â'r cynnydd o £85.8 miliwn mewn AME, mae'r newidiadau hyn yn cyfrif am y cynnydd cyffredinol o £528.4 miliwn TME i floc Cymru.

**Tabl 6: Addasiadau i'r llinell sylfaen**

Disgrifiad	Refeniw cyllidol	Refeniw anghyllidol	Refeniw	Cyfalaf
	£ miliynau	£ miliynau	£ miliynau	£ miliynau
<b>Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU:</b>	<b>2.26</b>	<b>326.45</b>	<b>328.71</b>	<b>29.74</b>
O Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer Cronfa Cymunedau'r Arfordir	1.45		1.45	
O'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddiddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd	0.04		0.04	
O'r Adran Addysg i Hyfforddi Athrawon drwy'r Brifysgol Agored	0.17		0.17	
Cyllid canlyniadol Datganiad Hydref 2013	0.60		0.60	
O Drysorlys Ei Mawrhydi i dalu am y tâl stoc benthyciadau myfyrwyr a chynnydd yn y gyfradd Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB)		326.45	326.45	
O DCMS ar gyfer Band Eang y Genhedlaeth Nesaf				21.95
O DECC ar gyfer y Fargen Werdd				7.79
<b>Dwyn cyllid ymlaen o dan y system cyfnewid cyllidebau</b>	<b>71.90</b>	<b>11.10</b>	<b>83.00</b>	<b>1.20</b>
<b>Cyfanswm yr addasiadau i'r llinell sylfaen</b>	<b>74.16</b>	<b>337.55</b>	<b>411.71</b>	<b>30.94</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2013-14](#) (Chwefror 2014)

<sup>17</sup> Efallai na fydd y ffigurau, o'u hychwanegu at ei gilydd yn cyfateb i'r cyfanswm yn union, oherwydd talgrynnu.

<sup>18</sup> **Y system cyfnewid cyllidebau (BES)** - dull i alluogi Llywodraeth Cymru i ddwyn ymlaen unrhyw danwariant o'r gyllideb a bennwyd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf, yn amodol ar gytundeb Trysorlys EM a hyd at cap cytûn o 0.6% o'r DEL refeniw a 1.5% o'r DEL cyfalaf.

<sup>19</sup> **Refeniw cyllidol** - Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae hwn yn mesur cronladau ar gyfer trosglwyddiadau y byddai disgwyl iddynt droi yn llif arian yn fuan. Mae'n ystyried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r llifau arian parod ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, caiff arian ei wario ar nwy/trydan wrth i'r tanwydd gael ei ddefnyddio, er ei bod yn bosibl y gwneir y taliad gwirioneddol fel ôl-daliad ar sail chwarterol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys tâl, caffael, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. Nid yw'n cynnwys adnoddau anghyllidol.

<sup>20</sup> **Refeniw anghyllidol** - Cyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae'n mesur cronladau a ddefnyddir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cyswllt uniongyrchol i'r llifau arian parod yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae enghreifftiau o refeniw nad yw'n arian parod yn cynnwys dibrisiant, darpariaethau a chost cyfalaf. Bydd taliadau o'r fath naill ai byth yn arwain at gost arian parod wirioneddol, neu bydd ond yn arwain at daliadau arian parod mewn blynyddoedd i ddod. Ni ellir defnyddio refeniw anghyllidol i ariannu gwariant cyllidol.

#### 4. Newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn

Mae'r gyllideb atodol hefyd yn dangos nifer o newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn. Ceir manylion yn [nhabl 7](#). O gymharu â chyllideb atodol flaenorol 2013-14:

- Mae cronfeydd refeniw wrth gefn wedi gostwng £42.6 miliwn. Mae hyn yn ganlyniad net i:
  - gynydd o £413.3 miliwn o ganlyniad i addasiadau i'r llinell sylfaen;
  - dyraniadau o £546.1 miliwn o gronfeydd wrth gefn i adrannau Llywodraeth Cymru; a
  - throsglwyddiadau o £90.2 miliwn i gronfeydd wrth gefn o adrannau Llywodraeth Cymru.
- Mae cronfeydd cyfalaf wrth gefn wedi gostwng £72.4 miliwn. Mae hyn yn ganlyniad net i:
  - gynydd o £45.6 miliwn o ganlyniad i addasiadau i'r llinell sylfaen; a
  - dyraniadau o £118 miliwn o gronfeydd wrth gefn i adrannau Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y newidiadau hyn, mae **£50.8 miliwn yn y gronfa refeniw cyllidol wrth gefn**, mae **£51.1 miliwn yn y gronfa refeniw anghyllidol wrth gefn**, ac mae **£7.8 miliwn yn y gronfa gyfalaf wrth gefn**. Hon yw'r gronfa wrth gefn sy'n weddill, heb ei dyrannu, i ymdrin ag unrhyw bwysau cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2013-14.

Mae'r naratif sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn cynnwys atodiad sy'n nodi goblygiadau rheolaidd dyraniadau a wneir o gronfeydd wrth gefn a fydd yn cael effaith mewn blynyddoedd i ddod.<sup>21</sup> Mae hyn yn awgrymu bod dyraniadau rheolaidd yn ymrywmo £294.7 miliwn pellach o gronfeydd wrth gefn yn 2014-15 a £383.3 miliwn yn 2015-16. Mae [tabl 7](#) yn darparu'r prif symudiadau ar gronfeydd wrth gefn o fewn pob MEG o ganlyniad i nifer y dyraniadau i gronfeydd wrth gefn o fewn pob MEG, ac o'r cronfeydd hynny.

---

<sup>21</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2013-14: Nodyn Esboniadol](#), Chwefror 2014 (Atodiad 2, tudalen 70) [fel ar 21 Chwefror 2014]



**Tabl 7: Newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn**

<b>Cronfa wrth gefn</b>	<b>Cyllidol £ miliynau</b>	<b>Anghyllidol £ miliynau</b>	<b>Cyfalaf £ miliynau</b>
<b>Cronfeydd wrth gefn yng Nghyllideb Atodol 2013-14 (Mehefin 2013)</b>	<b>73.71</b>	<b>70.78</b>	<b>80.16</b>
<b>Dygydd ymlaen o dan y System Cyfnewid Cyllidebau</b>	<b>71.95</b>	<b>11.08</b>	<b>1.18</b>
<b>Derbyniadau i mewn i'r cronfeydd wrth gefn Arbedion a nodwyd o brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru</b>			
Llywodraeth leol	9.49	0.26	
Cymunedau a threchu tlodi	11.67		
Economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth	11.00		
Addysg a sgiliau	26.38		
Cyfoeth naturiol a bwyd	18.80		
Tai ac adfywio	4.76		
Diwylliant a chwaraeon	0.57		
Gwasanaethau canolog a gweinyddu	7.25		
<b>Trosglwyddiadau</b>			
Symiau canlyniadol o ddatganiad hydref 2013	0.58		
Incwm Cyfoeth Naturiol Cymru o ffermydd gwynt	0.87		
Ad-dalu benthyciadau yn ystod y flwyddyn gan Cyllid Cymru	14.65		
Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU i'r MEG addysg a sgiliau	0.17	326.45	
Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU i'r MEG tai ac adfywio	1.45		
Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU i'r MEG gwasanaethau canolog a gweinyddu	0.04		
Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU i MEG yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth			21.96
Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU i'r MEG cyfoeth naturiol a bwyd			7.79
Dychwelyd cyllid gan Gomisiwn y Cynulliad	0.70		
<b>Dyraniadau o gronfeydd wrth gefn</b>			
Cytundeb broceriaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac addysg a sgiliau 2012-13	-3.10		
Dyraniadau ychwanegol i'r MEG iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	-192.60		
Dyraniad i'r MEG addysg a sgiliau ar gyfer hyfforddiant athrawon drwy'r Brifysgol Agored	-0.17		
Dyraniad i'r MEG tai ac adfywio ar gyfer y Gronfa Cymunedau Arfordirol	-1.45		
